NHS
Asiantaeth Genedlaethol
Diogelwch Cleifion

CYNLLUN CORFFORAETHOL 2008/09 - 2010/11

Cynnwys

1 Cyflwyniad
1.1 Pwy ydym ni
1.2 Ein gweledigaeth
1.3 Ein hymddygiad a'n gwerthoedd
1.4 Sut mae polisi'n siapio ein gwaith

2 Diogelwch Cleifion
2.1 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant
2.2 Ymholiadau Cyfrinachol

3 Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol
3.1 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant

4 Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol
4.1 Ein hamcanion strategol a sut y byddwn yn eu cyflawni
4.2 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

5 Datblygiad a Rheolaeth Corfforaethol
5.1 Sut fydd yr Asiantaeth yn gwneud busnes
5.2 Gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol
5.3 Cynnwys cleifion a'r cyhoedd
5.4 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant

6 Cefnogaeth Sefydliadol
6.1 Ein siarter pobl
6.2 Technoleg a rheoli gwybodaeth
6.3 Cryfhau llywodraethu
6.4 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant

7 Adnoddau
7.1 Incwm
7.2 Gwariant
7.3 Rheoli ystadau

8 Rhestr acronymau

1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion am y tair blynedd nesaf. Mae'n nodi ein ffordd ymlaen, ein gweledigaeth a'n hamcanion. Mae'n amlygu'r rôl o arwain y byddwn yn ei chymryd wrth broffilio a hyrwyddo pwysigrwydd gofal gwell a diogel i gleifion a sut y byddwn yn rhannu manteision a chyfleoedd arfer gorau ar draws y gwasanaeth iechyd.

1.1 Pwy ydym ni

O ganlyniad i'r adolygiad o Gyrff Hyd Braich yr Adran Iechyd a gynhaliwyd yn 2004, cafodd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ei ailffurfio gyda chyfrifoldeb dros dair adran ar wahân, pob un â swyddogaethau gwahanol:

- Adran Diogelwch Cleifion (PSD)
- Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol (NCAS)
- Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol (NRES)



1.2 Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw arwain a chyfrannu tuag at ofal gwell a diogel i gleifion drwy hysbysu, cefnogi a dylanwadu ar sefydliadau gofal iechyd ac unigolion sy'n gweithio o fewn y sector iechyd.

Hysbysu

- Dadansoddi adroddiadau am achosion diogelwch cleifion yn genedlaethol;
- Adnabod risgiau ac argymell camau gweithredu;
- Cyllido a monitro tair adran Ymholiadau Cyfrinachol cenedlaethol annibynnol.

Cefnogi

- Hwyluso ac annog ymchwil foesegol yn y DU;
- Hyrwyddo datrysiadau lleol effeithiol o bryderon am berfformiad ymarferwyr iechyd.

Dylanwadu

- Datblygu a gweithredu argymhellion, cyngor a strategaethau diogelwch priodol;
- Gwella hyder y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a chlinigol, gyda ffocws clir ar ein systemau a'n prosesau gwaith mewn partneriaeth ag eraill.

Er mwyn cyflawni ei gweledigaeth, bydd yr asiantaeth yn:

- gweithio mewn partneriaeth ag eraill;
- dangos y gwerth a ychwanegwn ar lefel genedlaethol, tra'n dal i ffocysu ar gefnogi'r rhai sy'n cyflwyno gofal yn lleol;
- helpu sefydliadau GIG i feithrin gallu i wella gofal cleifion;
- helpu i leihau'r baich ar sefydliadau GIG trwy wneud ein prosesau'n haws eu dilyn;
- rhannu'r hyn a ddysgwn mewn modd agored ac amserol;
- helpu eraill i wneud yr un modd;
- cyfrannu at waith rhyngwladol lle y gall helpu cleifion GIG.

Drwy wneud hyn rydym yn anelu at gael ein gweld fel arweinwyr yn ein maes, at gael ein parchu gan y rhai rydym yn gweithio gyda nhw a'n gwerthfawrogi gan y rhai rydyn yn gweithio drostynt. Ym mhopeth a wnawn, rydym yn gosod y claf yn gyntaf.

1.3 Ein hymddygiad a'n gwerthoedd

- Rydym yn darparu gwasanaethau sy'n addas i'r pwrpas ac yn helpu ein cwsmeriaid yn eu gwaith;
- Rydym yn creu amgylchedd sy'n denu, yn symbylu ac yn cydnabod perfformiad a chyrhaeddiad uchel;
- Rydym yn parchu pob unigolyn, yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac amrywiaeth, a hyrwyddo iechyd a lles ein staff;
- Rydym yn darparu gweithle diogel ac yn gwarchod yr amgylchedd;
- Rydym yn cynnal y lefelau uchaf o gywirdeb, gonestrwydd a thryloywder.

1.4 Sut mae polisi'n siapio ein gwaith

1.4.1 Cyflwyniad

Yn ystod haf 2008, bydd y GIG yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd na fu erioed ei fath yn lefel y buddsoddi a'r datblygu technolegol mewn gofal iechyd, a chychwyn diwygio arwyddocaol mewn agweddau allweddol o'r gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at ffocws polisi mawr ar wella diogelwch ac ansawdd profiad y claf.

Rhaid i bwysigrwydd sefydlu'r gofal cleifion gorau a mwyaf diogel o fewn y GIG aros fel y gyrrwr mwyaf allweddol ar gyfer yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ar draws ei thair adran sef Diogelwch Cleifion, Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol.

O lwyddo i gyflawni hyn, bydd yn cyfrannu tuag at well gofal a chryfhau hyder y cyhoedd yn y GIG. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi crynodebau byr o'r polisïau perthnasol ar gyfer pob un o'n meysydd gweithredu, a'r camau gweithredu y mae gofyn i'r asiantaeth eu cymryd i weithredu'r polisïau yn briodol ym mhob un o Weinyddiaethau'r DU yr ydym yn gweithio oddi mewn iddynt.

1.4.2 Diogelwch Cleifion – polisi a gweithredoedd

Mae *Safety First*, a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd ym mis Rhagfyr 2006, yn gosod allan y prif gyfeiriad polisi yn Lloegr, ac yn cadarnhau pwysigrwydd adeiladu GIG mwy diogel i gleifion. Ym mis Tachwedd 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Gynllun Gwella Ansawdd Gofal Iechyd, Cynllun Cyflenwi, sy’n amlinellu’r ffordd ymlaen i’r GIG yng Nghymru.

Gyda’i gilydd, mae’r rhain yn gosod yr agenda polisi i’n gwaith ar ddiogelwch cleifion. Mae’r ddau gyhoeddiad yn cydnabod bod angen i glinigwyr, rheolwyr a gwneuthurwyr polisi fod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch cleifion, bod angen cyflymu’r newid, a bod rhaid rhoi diogelwch cleifion ar ben pob agenda gofal iechyd. I gyflwyno’r agenda polisi hwn, byddwn yn:

- **Ffocysu ar waith craidd –** ailffocysu ar amcan ein gwaith craidd o gasglu a dadansoddi data diogelwch cleifion i hyrwyddo gwelliant, yn enwedig trwy System Genedlaethol o Ddysgu ac Adrodd, gyda staff rheng flaen yn cael mwy o ran;
- **Meithrin gallu –** meithrin gallu lleol i gael gwelliant yn Lloegr trwy sefydlu Timau Gweithredu Diogelwch Cleifion, ac yng Nghymru trwy ein Rheolwyr Diogelwch Cleifion;
- **Datblygu ein gwasanaethau mewn ymateb i angen –** darparu’r offer, y cymhelliant a rhwydweithiau am wella trwy gyflwyno, mewn partneriaeth, Ymgyrch Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn Lloegr, a chefnogaeth am ymgyrch debyg yng Nghymru;
- **Diffinio modelau busnes newydd –** lleihau’r baich o adrodd ar y rheng flaen trwy sefydlu Patient Safety Direct / Cyswllt Diogelwch Cleifion, ffordd newydd o gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch cleifion.

1.4.3 Asesiad Clinigol – polisi a gweithredoedd

Mae cyhoeddi’r Papur Gwyn, *Trust, Assurance and Safety – The Regulation of Health Professionals in the 21st Century*, yn gosod galwadau ychwanegol ar y Gwasanaeth Cenedlaethol Asesu Clinigol. Mae’r Papur Gwyn yn cwmpasu argymhellion sy’n deillio o adolygiad o reolaeth broffesiynol, a hefyd argymhellion o’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a adleisir gan Ymchwiliadau Shipman, Kerr/Haslam, Ayling a Neal.

Gyda’i gilydd, mae’r adroddiadau hyn yn cynnwys ystod eang o argymhellion sy’n debygol o gael effaith sylweddol ar ein rôl, ein cylch gwaith a’n cyfrifoldebau. Mae’r Gwasanaeth Cenedlaethol Asesu Clinigol wedi llunio rhaglen darged am y tair blynedd nesaf sy’n cynnwys ymdrech ychwanegol sylweddol ym meysydd gwaith achosion, gwerthuso, ymchwil a datblygu. I gyflwyno’r agenda polisi hwn, byddwn yn:

- **Ffocysu ar waith craidd –** darparu cyngor cadarn, cefnogaeth a gwasanaethau asesu i gynorthwyo ein cleifion presennol trwy gael ein gweithwyr iechyd proffesiynol i ddod yn ôl i weithio’n ddiogel;
- **Meithrin gallu –** trwy werthuso, ymchwil ac addysg, helpu sefydliadau lleol i ddeall anawsterau perfformio’n well ac i roi sylw iddynt a gwella trefn lywodraethol broffesiynol yn y system gofal iechyd;
- **Datblygu ein gwasanaethau mewn ymateb i angen –** estyn mynediad i wasanaethau craidd yn briodol i weinyddiaethau, sefydliadau a galwedigaethau iechyd eraill, a chyfrannu at ddatblygiad polisïau cenedlaethol a threfniannau llywodraethol proffesiynol;
- **Diffinio modelau busnes newydd –** diffinio modelau busnes amgen, gan gynnwys gwasanaethau tanysgrifio.

1.4.4 Moeseg Ymchwil – polisi a gweithredoedd

Mae’r Gwasanaeth Cenedlaethol Moeseg Ymchwil yn gyfrifol am sicrhau bod ymchwil foesegol yn cael ei chynnal, tra’n gwarchod yr un pryd hawliau, diogelwch, urddas a lles rhai sy’n cymryd rhan mewn ymchwil. Mae rôl y pwyllgorau moeseg wrth warchod

rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil wedi'i derbyn ers tro ac mae wedi'i sefydlu o fewn egwyddorion Datganiad Helsinki, statud a pholisi'r Adran Iechyd.

Mae *Best Research for Best Health*, polisi'r llywodraeth ar gyfer ymchwil yn y DU, yn gosod allan yr agenda datblygu ar gyfer y gwasanaeth. Ym mis Awst 2006, cafodd *Building on Improvement: Implementing the recommendations of the Report of the Ad Hoc Advisory Group on the Operation of NHS Research Ethics Committees* ei lansio gan sefydlu rhaglen strategol o waith ar gyfer y Gwasanaeth Cenedleathol Ymchwil Moesegol er mwyn gwella ymhellach foeseg ymchwil yn y DU.

Mae'r adroddiadau hyn, ynghyd â deddfwriaeth ar lefelau'r DU a'r UE, yn diffinio'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu'r Gwasanaeth. I gyflwyno'r agenda polisi hwn, byddwn yn:

- **Ffocysu ar waith craidd –** rhoi budd i gleifion drwy hwyluso ymchwil foesegol yn y DU drwy ddarparu gwasanaeth effeithiol, cadarn ar gyfer adolygu moesegol.
- **Meithrin gallu –** lleihau biwrocratiaeth a helpu ymchwil i ffynnu trwy wella'n barhaus weithdrefnau, strwythurau a thechnolegau sy'n cefnogi arolygu moesegol, yn enwedig trwy sicrhau bod yr arolygu'n gymesur.
- **Datblygu ein gwasanaethau mewn ymateb i angen –** Helpu i wella cysondeb ac ansawdd cyflwyniadau ac adolygiadau moesegol trwy hyfforddiant a'n hagenda sicrhau ansawdd.
- **Diffinio modelau busnes newydd –** sefydlu Cynghorwyr Cenedlaethol Moeseg Ymchwil, rhwydwaith o Gynghorwyr Moeseg Ymchwil Lleol, a datblygu gwasanaeth cymeradwyo 'carlam'.

2. Diogelwch Cleifion

Gwella diogelwch cleifion drwy ddadansoddi digwyddiadau diogelwch cleifion, ymateb cyflym iawn i ddigwyddiadau a datblygu camau gweithredu, mewn partneriaeth, all gael eu rhoi ar waith yn lleol, er mwyn adeiladu diwylliant cryfach o ddiogelwch cleifion.

Mae ein Hadran Diogelwch Cleifion yn arwain gwaith cenedlaethol wedi'i anelu at roi diogelwch cleifion yn gyntaf yn y cyfan a wna'r GIG..

Yn ganolog i'r gwaith hwn mae ein System Genedlaethol Adrodd a Dysgu (NRLS). Rydym yn derbyn adroddiadau o ddigwyddiadau a achosodd niwed i gleifion, neu a oedd gan y potensial i achosi niwed, gan staff GIG a sefydliadau yng Nghymru a Lloegr. Gan weithio'n agos gyda'r GIG, clinigwyr, arbenigwyr diogelwch a sefydliadau partner, rydym yn dadansoddi'r adroddiadau hyn ac yn darparu adborth a chyngor y mae modd gweithredu arnynt. Ein nod yw adnabod risgiau difrifol i gleifion yn gyflym lle y bydd o bosib angen gweithredu lleol. Rydym hefyd yn defnyddio adrodd a dysgu cenedlaethol i helpu'r GIG i adnabod cyfleoedd i wella diogelwch cleifion ac i osod blaenoriaethau.

Rydym yn ailgynllunio'r NRLS i'w gwneud yn haws i staff adrodd digwyddiadau a'r hyn sy'n eu hachosi; gwella cywirdeb a chyflawnder y data rydym yn eu casglu; ymateb yn fwy cyflym i'r risgiau a adnabuwyd a gweithredu dull cydweithredol i ddatblygu a gweithredu strategaethau lleihau risg, gyda'r staff rheng flaen yn cymryd llawer mwy o ran.

Mae adroddiad interim *Our NHS, our future: NHS Next Stage Review* yn croesawu datblygiad Cyswllt Diogelwch Cleifion. Bydd hyn yn cryfhau'r adrodd i'r NRLS trwy ychwanegu porth newydd a mwy hygyrch i staff GIG ac yn y pen draw i'r cleifion ei ddefnyddio. Caiff cynlluniau eu datblygu fel rhan o gam dau Adolygiad Cam Nesaf y GIG.

Trwy ddatblygu Timau Gweithredu Diogelwch Cleifion (yn Lloegr) a Rheolwyr Diogelwch Cleifion (yng Nghymru) rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau GIG i gefnogi gweithredu arferion mwy diogel ac i gryfhau rhan cleifion a'r cyhoedd. Rydym hefyd yn arwain gwaith cenedlaethol mewn meysydd pwnc penodol; er enghraifft, hylendid dwylo, glanhau a maetheg ysbytai.

Cryfhau trefn lywodraethol glinigol yw conglfaen ein gwaith. Rydym yn arwain datblygiad Ymgyrch Diogelwch Cleifion genedlaethol yn Lloegr gyda'r GIG a chyrff cenedlaethol eraill. Bydd yr ymgyrch hon yn ymrwymo timau clinigol rheng flaen, uwch reolwyr a Byrddau Ymddiriedolaethau GIG wrth weithredu arferion mwy diogel a gwella canlyniadau cleifion.



Newid: darpariaeth, comisiynu, a dewis
Gyda chynnydd yn amrywiaeth y sefydliadau sy'n darparu gofal iechyd yng Nghymru a Lloegr, bydd yr Asiantaeth yn ffocysu ei gwaith diogelwch cleifion i ddarparu'n fwy agored wybodaeth o safon uchel ar achosion niwed anfwriadol i gleifion, a lledu a rhannu arfer da ymysg pawb sy'n darparu gofal i gleifion GIG.

Yn ogystal â hyn, agwedd bwysig o'n gwaith yn y dyfodol fydd helpu comisiynwyr i integreiddio ystyriaethau diogelwch cleifion i'w gwaith.

Byddwn hefyd yn dosbarthu gwybodaeth i gleifion ac i'r cyhoedd er mwyn iddynt allu mwyhau eu diogelwch eu hunain trwy'r dewisiadau a wnânt, a thrwy ymbweru uwch wrth iddynt dderbyn gofal.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod cleifion yn dylanwadu ar ddiogelwch y system gofal iechyd, nid yn lleiaf trwy ein gwaith yn creu rhwydwaith cenedlaethol o 'bleidwyr cleifion' yn unol â chynllun 'Cleifion dros Ddiogelwch Cleifion' Sefydliad Iechyd y Byd.

Datblygiadau yn yr amgylchedd rheolaethol a gwella ansawdd
Un o'r ffyrdd allweddol y gallwn ddylanwadu ar ddarparwyr gofal iechyd yw trwy weithio gyda rheolaethwyr a sefydliadau eraill sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu ac asesu safonau. Drwy sicrhau fod diogelwch cleifion yn ffurfio rhan o safonau a

phrosesau asesu'r sefydliadau hyn gallwn greu cymhelliannau i ddarparwyr gyflwyno'r agenda diogelwch cleifion.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda phrosiectau a chyrff seilwaith canolog yn cynnwys Ystadau'r GIG Technoleg a Rheoli Gwybodaeth, a *Connecting for Health and Purchasing*, er mwyn sicrhau bod diogelwch yn cael ei uchafu drwy weithio cadarn mewn partneriaeth.

2.1 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant.

Amcan: **darparu gwybodaeth ac adborth amserol drwy ein System Adrodd a Dysgu Cenedlaethol sy'n helpu darparwyr gofal gymryd camau effeithiol i leihau risgiau ac i wella diogelwch cleifion.**

Cyflawni drwy: weithio gyda darparwyr gofal i wella cywirdeb a chyflawnrwydd data; datblygu mecanweithiau adborth newydd a chyflymach ar gyfer sefydliadau sy'n adrodd; canolbwyntio ar ddadansoddi a gweithredu ar achosion difrifol; parhau i ddatblygu mecanweithiau ymateb cyflym iawn a chryfhau gwaith o fewn gofal sylfaenol.

Drwy sefydlu Cyswllt Diogelwch Cleifion, symleiddio adrodd, adnabod yr achosion mwyaf difrifol yn gyflymach, a gwella mynediad i adrodd ar gyfer sectorau anodd eu cyrraedd, er enghraifft gofal sylfaenol.

Mesur drwy: gynyddu'r adrodd gan y sectorau targed; gwell ansawdd data (cyflawnrwydd a chywirdeb); gweithredu strategaethau lleihau risg gan ddarparwyr gofal iechyd, yn cael eu mesur drwy werthusiadau ffurfiol.

Amcan: **adeiladu ymgysylltiad staff y rheng flaen a gallu lleol i weithredu a chynnal gwelliannau mewn diogelwch cleifion.**

Cyflawni drwy: weithio gydag Awdurdodau Iechyd Strategol ac Ymddiriedolaethau i sefydlu a chefnogi Diogelwch Cleifion Timau Gweithredu (PSATau) yn Lloegr; cynnal rhwydwaith cenedlaethol o PSATau; cynnwys arweinwyr y GIG mewn diogelwch cleifion; cryfhau cyfranogiad clinigol ym mhob agwedd o'n gwaith; cefnogi Rheolwyr Diogelwch Cleifion yng Nghymru a gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'r Cynllun Gwella Ansawdd Gofal Iechyd.

Mesur drwy: dimau PSAT yn eu lle; gwaith cydweithredol gyda Cholegau a Chymdeithasau.

Amcan: **arwain a symbylu staff y GIG i wella diogelwch cleifion drwy dystiolaeth, rhwydweithiau ac offer.**

Cyflawni drwy: weithredu ymgyrch genedlaethol am hylendid dwylo; gweithredu mewn meysydd pwnc penodol megis glanhau a maetheg; gwaith cydweithredol gyda phartneriaid megis Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) a Sefydliad dros Arloesedd a Gwella'r GIG (GIG III) i gomisiynu, datblygu a lledaenu datrysiadau, hyfforddiant ac adnoddau; arwain datblygiad a gweithredu Ymgyrch Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn Lloegr; cefnogi datblygiad technoleg a newyddbethau sy'n gwella diogelwch cleifion.

Mesur drwy: werthuso'r ymgyrch hylendid dwylo; gwerthuso'r Ymgyrch Diogelwch Cleifion cenedlaethol; gwerthuso datrysiadau wedi'i dargedu; gwelliannau i'r rhaglen Tîm Gweithredu Amgylchedd Cleifion (PEAT).

Amcan: **sefydlu gwella diogelwch cleifion o fewn y system iechyd ehangach drwy gyfrwng safonau a chomisiynu.**

cyflawni drwy: helpu comisiynwyr i bwrcasu gwasanaethau mwy diogel; dylanwadu ar ddiffiniad ac asesiad safonau diogelwch; adeiladau partneriaethau gyda chyrff allweddol; gweithio gyda diwydiant ar ddylunio ar gyfer diogelwch. Helpu cyrff proffesiynol i ddiffinio arferion mwy diogel, cyfathrebu'r rheiny i'w haelodau, a datblygu hyfforddiant cyfatebol.

Mesur drwy: drefniadau a safonau comisiynu sy'n ymgorffori mesurau diogelwch, trefniadau partneriaeth yn eu lle gyda chyrff dylanwadol allweddol; cryfhau partneriaethau gyda diwydiant i wella dylunio ar gyfer diogelwch meddyginiaethau a dyfeisiau.

2.2 Ymholiadau Cyfrinachol
Cyllido a monitro tri Ymchwiliad Cyfrinachol Annibynnol cenedlaethol

Mae Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn gyfrifol am gyllido a monitro'r tri Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol:

1 Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion - yn anelu at wella ansawdd a darparu gofal

2 Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant – yn anelu at wella iechyd mamau, babanod a phlant

3 Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Dynladdiad gan Bobl â Salwch Meddwl – yn anelu at wella gwasanaethau iechyd meddwl ac i oleuo ymarfer a pholisi clinigol i leihau risg hunanladdiadau a dynladdiadau.

Mae'r Ymchwiliadau Cyfrinachol yn gyrff annibynnol, ar wahân. Maent yn adolygu ymarfer clinigol ac yn gwneud argymhellion i wella ansawdd darparu gofal yn eu meysydd priodol. Mae'r Asiantaeth yn monitro'r Ymchwiliadau am werth clinigol ac ariannol trwy broses o gontractau, trefn lywodraethol chwarterol a chyfarfodydd adolygu bob tair blynedd.

Yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf, bydd yr Asiantaeth yn datblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer Ymchwiliadau Cyfrinachol, gan gydnabod eu dyletswyddau statudol, i sicrhau ein bod yn mwyhau manteision eu hymchwil fanwl i wella gofal cleifion.

Amcan: **rheoli ein perthnasoedd cytundebol yn effeithiol ac effeithlon gyda phob un o'r Ymchwiliadau Cyfrinachol i hyrwyddo cynllunio effeithiol, trefn lywodraethol gadarn a gwell defnydd o adnoddau er mwyn hyrwyddo gofal cleifion gwell a mwy diogel**

Cyflawni drwy: roi mewnbwn i brosesau dethol pwnc; cytuno ar gynlluniau busnes cadarn; monitro darpariaeth; cryfhau llywodraethu; adnabod cyfleoedd i sefydlu canfyddiadau ymchwiliadau ymhellach i ddarpariaeth gofal iechyd.

Mesur drwy: ymchwiliadau Cyfrinachol yn gweithredu cynlluniau busnes, ac yn gweithio'n effeithiol mewn meysydd blaenoriaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

3. Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol

Hyrwyddo ac annog ymchwil foesegol yn y DU tra'n gwarchod hawliau, diogelwch, urddas a lles rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Darparu gwasanaeth cadarn ac effeithiol i gefnogi a hyrwyddo ymchwil foesegol.

Mae Gwasanaeth Cenedlaethol Moeseg Ymchwil (NRES) yn cynnwys pwyllgorau moeseg y GIG yn Lloegr, a swyddogaeth y brif swyddfa sy'n rhan o Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

Mae rôl y pwyllgorau moeseg wrth warchod rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil wedi'i derbyn ers tro ac mae wedi'i sefydlu o fewn egwyddorion Datganiad Helsinki, statud a pholisi'r Adran Iechyd. Mae pwyllgorau moeseg yn y sefyllfa unigryw o fod yn gallu ystyried y cynnig ymchwil o safbwynt y person sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Cyflawnir y wedd annibynnol hon yn y DU trwy gael gwasanaeth gwirfoddolwyr, gyda'r aelodaeth yn dod o'r galwedigaethau clinigol a rhaid i safbwynt yr aelodau lleyg gael ei ystyried er mwyn i'r farn fod yn ddilys.

Yr her i'r NRES yw darparu mecanwaith cadarn ac effeithlon sy'n gwarchod y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, ond sydd hefyd yn gallu cefnogi a hyrwyddo ymchwil foesegol.

Cafwyd gwelliannau arwyddocaol yn y broses weithredu ar gyfer adolygu moesegol ac mae gwelliannau pellach wedi eu sefydlu yn strategaeth y llywodraeth, *Best Research for Best Health*. Mae safonau gweithredu wedi eu diffinio a'u cyhoeddi ac mae pwyllgorau'n atebol i'r rhain, ac mae fframwaith sicrhau ansawdd yr NRES yn achredu pwyllgorau yn ôl y safonau hyn. Caiff cyflawniad ei ddangos mewn gwybodaeth reoli a gyhoeddir.

Mae cylch gwaith pwyllgorau moeseg y GIG fel y'i disgrifir ym mholisi'r Adran Iechyd yn awr yn cwmpasu rhai astudiaethau sy'n ymddangos yn bell o'r rhai a ragwelwyd pan gafodd Datganiad Helsinki ei gytuno, ac mae pwyllgorau moeseg yn adolygu nifer cynyddol o astudiaethau yr oedd eu dimensiynau moesegol fel pe baent yn brin iawn.

Mae cylch gwaith pwyllgorau moeseg yn gofyn am ailddiffinio a disgwylir i hyn gael ei gytuno trwy ymgynghoriad yr Adran Iechyd ar drefniadau trefn lywodraethol iddynt. Bydd hyn ynddo'i hun yn cyflwyno heriau i'r NRES, y bydd angen iddo adolygu gallu o fewn y gwasanaeth moeseg ymchwil a bydd gofyn i nifer y pwyllgorau gael ei leihau pan ddaw hyn i rym. Bydd o hyd astudiaethau o fewn cylch gwaith y pwyllgorau moeseg ymchwil lle y mae'r



materion moesegol yn brin iawn a lle mae angen proses fwy cymesur i'r rhai sy'n cyflwyno astudiaethau risg isel.

Bydd rôl yr NRES yn ehangu wrth i'r cysylltiadau gael eu cryfhau gyda phwyllgorau moeseg Cam 1 yn adolygu astudiaethau gwirfoddolwyr iach y tu allan i'r GIG; adolygu astudiaethau o fewn gofal cymdeithasol sy'n dod o fewn cylch gwaith y Ddeddf Galluedd Meddyliol; a sefydlu pwyllgor cenedlaethol moeseg ymchwil gofal cymdeithasol.

Yr her fawr arall i'r NRES yw delio ag anghysondeb cynhenid llunio penderfyniadau rhwng pwyllgorau. Bydd y penderfyniad a wneir, yn gyfiawn, yn eiddo'r aelodaeth amrywiol o gwmpas y bwrdd. Mae hi felly'n gamp gydbwyso i gynnal annibyniaeth barn tra'n sicrhau gradd o gysondeb.

Mae'r Gwasanaeth yn dal i fuddsoddi mewn hyfforddiant i aelodau'r pwyllgor moeseg, agenda sicrhau ansawdd a chynlluniau i sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'r disgwyliad bod pwyllgor yn cefnogi ymchwilwyr wrth ddatblygu protocolau ymchwil moesegol cadarn.

3.1 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant.

Amcan: **darparu gwasanaeth effeithiol a chadarn ar gyfer adolygiad moesegol.**

Cyflawni drwy: reoli dyraniadau'n effeithiol; gwelliannau i brosesu ceisiadau; datblygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, arweiniad, hyfforddiant, sicrwydd ansawdd a chyngor i bwyllgorau ymchwil moesegol.

Mesur drwy: wybodaeth reoli a gyhoeddwyd yn nodi amserlenni ar gyfer cymeradwyo a'r penderfyniadau a wnaethpwyd.

Amcan: **harmoneiddio a symleiddio'r cyfnewid gwybodaeth rhwng yr NRES, y GIG ac eraill, tra'n amddiffyn annibyniaeth adolygu moesegol.**

Cyflawni drwy: weithio gydag Awdurdod Pwyllgor Moeseg y DU ac Adrannau Iechyd y DU i gynnal fframwaith ar draws y D.U. ar gyfer adolygu moesegol; gweithio gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am gymeradwyo ymchwil er mwyn sicrhau fod y broses ar gyfer cymeradwyaeth rheolaethol yn effeithiol ac yn addas at y diben.

Mesur drwy: adborth cadarnhaol gan bartneriaid a sefydliadau sy'n cydweithio yn cael ei asesu drwy adborth arferol gan ymgeiswyr, arolygon wedi'u targedu a mesurau wedi'u eu cyhoeddi'n annibynnol.

Amcan: **codi hyder yn y system pwyllgorau ymchwil foesegol.**

Cyflawni drwy: redeg gwasanaeth cadarn; mwy o dryloywder wrth wneud penderfyniadau; a rhaglen o sicrwydd ansawdd ar gyfer pwyllgorau ymchwil foesegol, yn cynnwys cynllun achredu.

Mesur drwy: gynnydd mewn hyder flwyddyn ar ben blwyddyn yn y System Moeseg Ymchwil, drwy grynodebau barn a gyhoeddwyd deilliannau achredu ac asesu drwy adolygiad ffurfiol o adborth.

Amcan: **cynyddu dealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan ymgeiswyr ymchwil wrth gyflwyno cais am ymchwil foesegol**

Cyflawni drwy: ddarparu gwybodaeth ar hyfforddiant mewn adolygu moesegol i ymgeiswyr ymchwil; symleiddio'r broses o wneud cais; datblygu a chyhoeddi fframwaith ar gyfer adolygu llwybr carlam a darparu cyngor yn gynnar.

Mesur drwy: leihad flwyddyn ar ben blwyddyn yn nifer yr opsiynau dros dro.

4. Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol

Hyrwyddo datrys yn effeithiol yn lleol bryderon am berfformiad ymarferwyr iechyd.

Mae'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol (NCAS) yn darparu cefnogaeth i sefydliadau gofal iechyd ac i feddygon a deintyddion unigol (ymarferwyr) pan fyddan nhw'n wynebu pryderon am berfformiad ymarferwr unigol.

Rydym yn darparu gwasanaeth i'r GIG yn Lloegr trwy statud ac i'r gwasanaethau iechyd cenedlaethol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon trwy gytundebau gwasanaeth o dan y Deddfau datganoli perthnasol. Yn ogystal â hyn, mae NCAS yn derbyn achosion a gyfeiriwyd fesul achos gan GIG yr Alban, gwasanaethau iechyd Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, Gibraltar a gan Wasanaethau Meddygol Amddiffyn y DU. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio o fewn pob un o'r awdurdodaethau tuag at gytundebau gwasanaeth ffurfiol.

Pan fo pryderon difrifol yn codi am berfformiad ymarferwr, disgwylir i gyflogwr yr ymarferwr neu'r sefydliad contractio geisio cyngor gan NCAS ar sut i drafod y broblem. Nid oes gofyniad cyffredinol yr ymgynghorir ag ef ym mhob achos lle y mae pryderon. Serch hynny, lle caiff atal neu ddiarddel ei ystyried, rhaid i gyrff GIG yn Lloegr a Gogledd Iwerddon geisio cyngor NCAS cyn mynd ymlaen i ddiarddel yn ffurfiol. Cynghorir pob corff gofal iechyd arall, gan gynnwys ymddiriedolaethau sefydledig, i wneud hyn.

Mae'r cyd-destun polisi sydd â pherthnasedd penodol i NCAS yn gyffredin i bob gwasanaeth iechyd yn y Deyrnas Unedig:

- Wrth wynebu pryder am berfformiad ymarferwr, dylai gwasanaethau iechyd gael eu galluogi i ddeall yn gyflym yr achosion am y pryder ac i weithredu'n briodol i'w ddatrys. Rhaid mai prif flaenoriaeth hyn yw diogelwch cleifion ac amddiffyn y cyhoedd.

- Dylai gwasanaethau iechyd gael eu hymbweru i drin pryderon perfformiad eu hunain cyhyd ag y bo modd, ac felly ddefnyddio adnoddau cenedlaethol arbenigol, lle y bo angen, yn gyflym ac yn effeithiol. Dylai adnoddau cenedlaethol sy'n cefnogi gweithredu lleol ffocysu ar ddarparu'n unig y gwasanaethau arbenigol y gellir eu darparu'n fwyaf effeithiol ar lefel genedlaethol.



- Dylai'r gwasanaeth y mae NCAS yn ei ddarparu fod ar gael ar draws y sectorau iechyd a galwedigaethau iechyd sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddiogelwch cleifion ac amddiffyn y cyhoedd.

- Yn gyffredin â phob sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi gwasanaethau iechyd rheng flaen, mae'n ofynnol i NCAS geisio bod yn flaengar yn ei fodelau o gyflwyno gwasanaeth, gan leihau'r costau uniongyrchol i ofal cleifion.

4.1 Ein hamcanion strategol a sut y byddwn yn eu cyflawni.

Thema Strategol Un –
Canolbwyntio ar ein gwaith craidd
***Amcan:* sicrhau bod gwaith achosion yn ymatebol, yn amserol ac yn addas at y diben**
Bydd NCAS yn ymateb i bob cais am gymorth gyda phryderon am berfformiad o fewn amserlen gytûn, gan gynnig cyngor effeithiol a chefnogaeth barhaus i helpu ymateb i'r pryderon hyn. Lle mae hynny'n briodol, bydd NCAS yn cynnal asesiad o'r ymarferydd wedi'i anelu at ddeall natur a sgôp y pryder a'r ffactorau sy'n cyfrannu, a bydd yn gweithio'n agos gyda'r corff sy'n cyfeirio a'r ymarferydd i gytuno ar gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â materion gafodd eu nodi.

***Amcan:* sicrhau fod y dulliau sy'n sylfaen i'n gwaith achos yn gadarn ac yn amddiffynadwy**
Bydd NCAS yn sicrhau, drwy ei werthusiad, ei raglen Ymchwil a Datblygu, a thrwy ei waith gyda chydweithwyr yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, fod ei ddulliau gwaith a'i brotocolau'n seiliedig ar arfer gorau ac yn cael eu hysbysu ganddo. Bydd hefyd yn sicrhau fod ei ddulliau yn parhau ar flaen y gad i ddeall sut y gall pryderon am berfformiad gael eu cydnabod, eu hasesu a'u hateb.

Thema Strategol Dau –
Gweithio i feithrin gallu'n lleol
***Amcan:* hyrwyddo systemau effeithiol o lywodraethu clinigol a phroffesiynol mewn gwasanaethau iechyd rheng flaen.**
Bydd yr amcan hwn yn cael ei gyflawni drwy gyfrwng rhaglen addysg allanol NCAS. Bydd staff sy'n cyflwyno gwasanaethau NCAS yn cymryd rhan ganolog yn y gwaith hwn, gan sicrhau fod profiad gwaith achos NCAS yn cael ei gyfieithu'n uniongyrchol i adeiladu arbenigedd lleol.

***Amcan:* cyhoeddi gwybodaeth cyfanredol o'r swyddogaeth gwaith achos i arwain y gwaith o adnabod a rheoli pryderon am berfformiad.**
Mae hyn wedi'i anelu at sicrhau fod themâu sy'n codi wrth ddelio gyda pherfformiad yn cael eu hymgorffori mewn gwaith lleol i ragweld, i atal ac i reoli anawsterau mewn perfformiad. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi oni bai ei bod yn gyson â chyfrinachedd gwaith achos NCAS.

Thema Strategol Tri – Ymateb i ofynion allanol am ddatblygu gwasanaethau
***Amcan:* ymateb i ofynion allanol i ymestyn ein cwmpas i sectorau iechyd eraill ac i alwedigaethau iechyd eraill**
Daw'r pwysau ar gyfer hyn yn bennaf o ddau gyfeiriad: y Papur Gwyn ar Reolaethu , Ymddiriedaeth, Sicrwydd a Diogelwch Proffesiynol, a cheisiadau gan sectorau iechyd eraill ar draws y DU a gweinyddiaethau cysylltiedig am gytundebau gwasanaeth. Dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol hwn, bydd hyn yn cynnwys:

- gorffen cytundebau gwasanaeth gyda GIG Yr Alban, a gwasanaethau iechyd yn Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel a Gibraltar;
- darparu gwasanaethau i'r sector iechyd preifat dan femorandwm o ddealltwriaeth gyda'r Gwasanaeth Ymgynghori ar Ofal Iechyd Annibynnol;
- gorffen cytundeb gwasanaeth gyda Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn y DU;
- archwilio cost-effeithiolrwydd ymestyn gwasanaethau NCAS i alwedigaethau iechyd eraill, gan gychwyn gyda fferylliaeth;
- cefnogi datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau i gefnogi iechyd ymarferwyr.

Thema Strategol Pedwar –
Archwilio modelau cyflwyno gwasanaethau
***Amcan:* sicrhau cost effeithiolrwydd gorau posibl ein gwasanaethau drwy archwilio modelau amgen ar gyfer cyllido a chyflwyno gwasanaethau.**

4.2 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Mesur llwyddiant: Y defnydd lleiaf posibl, ac wedi'i dargedu, o atal a diarddel.

Mesur perfformiad: Trafod pob diarddeliad arfaethedig gyda NCAS; bydd gan pob ataliad a diarddeliad gynllun rheoli wedi'i gefnogi gan gyngor NCAS.

Mesur llwyddiant: Bydd canran uchel o'r ymarferwyr hynny y mae'r NCAS yn credu y dylent allu mynd yn ôl i'r gwaith yn ddiogel yn cael eu galluogi i wneud hynny.

Mesur perfformiad: Canran o gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt yn eu lle gydag ymarferwyr a'r cyrff cyfeirio.

Mesur llwyddiant: Rhaglen addysg allanol NCAS sy'n cwrdd ag anghenion staff allweddol ym mhob gweinyddiaeth iechyd.

Mesur Perfformiad: Presenoldeb staff allweddol mewn gweithdai; adborth gan gynadleddwyr;

Mesur Llwyddiant a Pherfformiad: Rhaglen ymchwil a datblygu wedi'i chwblhau sy'n adlewyrchu cyd-destun polisi NCAS.

Mesur llwyddiant: NCAS yn cwrdd ag anghenion pob gweinyddiaeth iechyd.

Mesur perfformiad: Cyfraddau cyfeirio cymharol sy'n adlewyrchu'r angen a'r galw am wasanaethau NCAS.

5. Datblygiad a Rheolaeth Corfforaethol

Datblygu sefydliad sy'n addas at y diben.

5.1 Sut fydd yr Asiantaeth yn gwneud busnes

Mae pob un o adrannau'r Asiantaeth wedi ei chwmpasu o fewn hunaniaeth Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, ond maent yn gweithredu'n annibynnol o fewn eu maes gweithredu. Ar yr un pryd, maent yn cyfrannu ac yn cadw at gyfeiriad strategol cyffredinol yr Asiantaeth. Mae'r dull hwn yn cynnig lefel o annibyniaeth i'r adrannau ac yn eu galluogi i weithredu'n gyfrinachol ac yn unol ag egwyddorion arfer gorau.

Mae gan Gyfarwyddwyr pob adran o'r Uwch Grŵp Rheoli gyfrifoldeb am reolaeth strategol gyffredinol. Mae hyn yn cynyddu tryloywder ar draws y busnes, yn y pen draw'n sicrhau lefel uwch o gyfathrebu ac o gyflawni cyfarwyddebau a osodwyd gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Adrannau Iechyd Gweinyddiaethau'r DU.



5.2 Gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol

Mae arolwg o randdeiliaid allanol yr Asiantaeth, sefydliadau â diddordeb a phartneriaid yn gynnar yn 2007 wedi nodi rhai meysydd allweddol i gael sylw. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried bod gan yr Asiantaeth enw da o fewn y GIG ond dywedwyd bod:

- proffil y sefydliad ddim yn ddigon uchel;
- pawb ddim yn deall rôl yr Asiantaeth;
- cyfathrebu gydag anghenion rhanddeiliaid;
- cyhoeddiadau ddim yn cynnig brand hawdd ei adnabod;
- y gallai'r Asiantaeth weithio i gynyddu ei broffil ymysg gweinidogion ac adrannau'r Llywodraeth.

Bydd ein strategaeth i wella ein proffil a'n henw da yn cynnwys:

- cyfathrebu wedi ei dargedu'n well i fodloni diddordebau rhanddeiliaid;
- cyfathrebu'r hyn a wnawn gyda'r rhai sy'n gweithio mewn gofal iechyd a'r cyhoedd;
- gwell perthynas â'r Llywodraeth a chyfrannu at yr amgylchedd polisi cyffredinol;
- neilltuo adnoddau'n well i sicrhau adnabod brand a delwedd;
- defnydd cynyddol o e-dechnoleg ar gyfer cyfathrebu gan gynnwys ebost a chyhoeddiadau gwe.

Mae angen i ni sicrhau fod gan yr Asiantaeth fwriad cydweithredol wedi'i bennu fydd yn llesol i ofal iechyd, nid yn unig ar yr ochr glinigol a rheoli, ond hefyd gyda mentrau masnachol. Mae gennym ymochredd naturiol gyda sefydliadau megis NICE, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Y Sefydliad Iechyd a GIG III, ac mae angen i ni feithrin a datblygu hyn er mwyn gwella diogelwch cleifion yn gyffredinol.

Dros gwrs y Cynllun Corfforaethol rydym yn anelu at weithio'n agosach gydag Awdurdodau Iechyd Strategol Iechyd ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr, a gyda Swyddfeydd Rhanbarthol a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Byddwn yn ymgysylltu â'r Colegau Brenhinol meddygol ac yn uniongyrchol gyda chlinigwyr y rheng flaen er mwyn sbarduno eu hymdrechion i yrru gwelliannau mewn diogelwch.

5.3 Cynnwys cleifion a'r cyhoedd

Mae'r Asiantaeth bob amser wedi cyfrannu tuag at y gofynion i gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ein gwaith. Caiff hyn ei gryfhau wrth i'r Asiantaeth wneud gwaith â mwy o ffocws gydag aelodau'r cyhoedd fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth staff am eu pryderon, ac felly'n arwain at well gwasanaethau a chynnyrch tra ar yr un pryd yn cynyddu ymddiriedaeth wrth i ni weithio'n fwy tryloyw.

5.4 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Amcan: Cynyddu hyder y cyhoedd yn niogelwch gofal, diogelwch ymarferwyr iechyd a systemau i sicrhau ymchwil foesegol.

Cyflawni drwy: ddatblygu cynllun tair i bum mlynedd o gyfranogiad rhanddeiliaid a chynllun cyfathrebu strategol; gweithredu i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a swyddogaethau'r Asiantaeth; sefydlu cyngor partneriaid cyhoeddus, gan gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ein gwaith.

Mesur drwy: sefydlu arolwg blynyddol o ymwybyddiaeth a hyder y cyhoedd.

6. Cefnogaeth Sefydliadol

Darparu cefnogaeth a rhwydwaith corfforaethol effeithlon ac effeithiol.

Ein heriau allweddol dros y tair i bum mlynedd nesaf fydd cyflwyno agenda gwaith mwyfwy heriol, gyda lleihad mewn cyllid. Tybir y bydd lleihad ar sail y setliad Arolwg Gwariant Cyffredinol, sy'n mynnu bod yr Adran Iechyd yn cyrraedd arbedion effeithlonrwydd o dri y cant ar ben y cwtogiadau o bump y cant yn eu targedau gweinyddol dros y pum mlynedd nesaf.

I alluogi'r Asiantaeth i gyrraedd ei nodau o fewn y cyfyngiadau a ragwelir, strategaeth y Datblygiad Trefniadaethol ac Adnoddau Dynol fydd:

- datblygu hunaniaeth gorfforaethol glir i'r Asiantaeth a fydd yn caniatáu i'r tair cangen ddarparu unigol barhau i weithredu yn ôl eu harfer gorau/hunaniaeth brand eu hunain;
- trwy arweinyddiaeth effeithiol a datblygiad trefniadaethol, symud diwylliant yr Asiantaeth o reolaeth/bod yn dadol ac yn rhanedig i fod yn gynhwysol, yn ymddiried, yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn gyfrifol;
- denu a chynnal y bobl 'orau' yn y sector;
- ffocysu ar ein gwaith craidd a hyrwyddo arferion gwaith hyblyg lle y gellir ffurfio a gwaredu timau yn unol â blaenoriaethau busnes datblygol;
- sicrhau ein bod yn rhannu'r arfer gorau ar draws yr Asiantaeth ac yn cydweithio'n effeithiol ar fodelau cyflwyno a chynlluniau busnes sy'n dangos ymrwymiad i'r Asiantaeth yn gyfan.

6.1 Ein siarter pobl

I sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r heriau uchod, mae'r Asiantaeth yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn darparu amgylchedd ffyniannus i'n staff fel eu bod yn mwynhau dod i'r gwaith, ac yn falch o fod yn rhan o'r sefydliad sy'n eu cyflogi.

Gall ein staff ddisgwyl hyn gennym:

- gwaith heriol a chyffrous;
- ymddiriedaeth a hyder yn eu gallu i gyflawni;
- cyfleoedd i ddatblygu a dysgu;
- agwedd gyfrifol at eu lles;
- agwedd hyblyg at arferion gwaith;
- cefnogaeth a hyfforddiant gan gyd-weithwyr a rheolwyr;
- gwybod pa mor dda maen nhw'n ei wneud a'u bod yn cael eu gwobrwyo'n briodol;
- cael gwrandawiad a chyfrannu at lunio penderfyniadau;
- cael gwybod sut mae'r sefydliad yn perfformio yn ôl ei nodau strategol ac unrhyw newidiadau cyfeiriad;
- mwynhau eu gwaith yma.

Byddwn yn darparu amgylchedd fel y gall ein staff:

- weithredu fel llysgenhadon i'r NPSA;
- helpu'n rhagweithiol wrth ddatblygu a chyflawni cynllun busnes yr Asiantaeth;
- dangos safonau proffesiynol uchel mewn perthynas â'r ffordd y maent yn eu cyflwyno'u hunain yn y gwaith, y pethau y maen nhw'n ei ddweud a'r gwaith maen nhw'n ei gyflawni;
- dangos agwedd hyblyg at ffyrdd o weithio a hyder i ddelio â newid;
- dangos ymrwymiad a ffocws trwy ddod o hyd i ffordd o gwmpas rhwystrau i gael y gwaith wedi'i wneud;
- bod yn berchen ar eu gyrfa a bod yn fodlon i ddysgu ac i ddatblygu yn y swyddi sydd ganddynt;
- lleisio'u barn, cymryd rhan yn y ddadl, cyfrannu at benderfyniadau a pherchenogi'r canlyniad.

6.2 Technoleg a rheoli gwybodaeth

Mae ein strategaeth technoleg a rheoli gwybodaeth yn sicrhau bod pob gwaith newydd a gwaith presennol yn unol â'r Cynllun Corfforaethol. Bydd ein strategaeth yn penderfynu a ydym yn newid ffocws o ddatblygiad mewnol i fodel busnes is-gontractio, gan ganiatáu dull mwy hyblyg o ddarparu gwasanaethau.

6.3 Cryfhau llywodraethu

Mae cyflawni ein cynlluniau a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael yr effaith a fwriadwyd yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae rheoli perfformiad cadarn a mesur effeithiolrwydd ac effaith y gwasanaeth yn allweddol i wneud hyn.

Mae'r NPSA yn gweithio o fewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Ystyr hyn yw bod arnom angen systemau effeithiol i reoli risgiau i gyflawni ein cynlluniau ac i addasu cynlluniau i adlewyrchu newidiadau yn y galw am wasanaethau a chyfeiriadau newydd gan ein rhanddeiliaid.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus mae hi'n bwysig bod gan yr Asiantaeth reolaeth gadarn ar drefn gaffael ac ar drefn ariannol fewnol.

Fel corff cyhoeddus mae'n rhaid i ni barhau i ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan y Deddfau Rhyddid Gwybodaeth ac Gwarchod Data a rheoli cwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

Dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol byddwn yn cymryd camau i gryfhau'r drefn lywodraethol ym mhob un o'r meysydd pwysig hyn.

6.4 Ein hamcanion strategol, sut y byddwn yn eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Amcan: **Datblygu sefydliad effeithiol a hyblyg**

Cyflawni drwy: weithredu sefydliad arfer da; cynllunio offer ac egwyddorion; datblygu strategaeth dysgu ac addysgu; cryfhau rheolaeth perfformiad staff.

Mesur drwy: arolwg staff.

Amcan: **Darparu cefnogaeth gorfforaethol a seilwaith sy'n cyfateb i strategaeth a darpariaeth y busnes**

Cyflawni drwy: weithredu ar adborth a gofynion cwsmeriaid, atgyfnerthu ein model sefydliadol newydd ar gyfer darparu cefnogaeth gorfforaethol, adolygu polisïau a phrosesau presennol i gwrdd â gofynion.

Mesur drwy: brosesau cyflwyno busnes hyblyg ac effeithiol.

7. Adnoddau

7.1 Incwm

Mae’r cyfyngiad adnoddau a nodwyd ynghyd â’r gostyngiad incwm o’r gweinyddiaethau datganoledig yn sgil hyn ac effaith chwyddiant yn golygu y bydd gostyngiad incwm termau real yn 2008/09 o £2.1 miliwn.

Yn y blynddoedd a ddaw bydd y terfyn adnoddau a nodwyd ar hyn o bryd yn golygu na chaiff chwyddiant ei gyllido ac felly bydd lleihad mewn termau real o £0.6 miliwm y flwyddyn. Mewn blynyddoedd diweddar mae’r Asiantaeth wedi derbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf o ryw £1 filiwn. Bydd angen adnoddau ar y lefel hon yn y dyfodol er mwyn cynnal systemau caledwedd a bwrdd gwaith presennol. Cyflwynir achos ar wahân am gyfalaf fel rhan o’r broses cynllunio busnes. Caiff ceisiadau unigol am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol eu cyflwyno fel y bo’n briodol yn ystod y cyfnod cynllunio strategol.

7.2 Gwariant

Mae adolygiad trylwyr o gostau gweithredu wedi cael ei gynnal ac mae wedi arwain at nodi arbedion mewn costau adeiladau a ffôn o tua £0.5 miliwn. Tra bod hyn yn cyfrannu rhywfaint tuag at gwrdd â'r lleihad yn y terfyn adnoddau, bydd arbedion pellach yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Mae'r Asiantaeth hefyd yn wynebu nifer o alwadau i ddarparu gwasanaethau newydd, estynedig neu uwch.

Mae angen cyllid ychwanegol ar gyfer yr eitemau canlynol:

- cynnydd mewn llwyth gwaith a galw yn NCAS;
- unrhyw estyniad o wasanaethau yn NCAS o ganlyniad i'r Papur Gwyn rheoleiddio;
- yr Ymgyrch Diogelwch Cleifion;
- ymestyn glanhewch-eich-dwylo i weithgareddau nad ydynt yn aciwt a chynnal gweithgareddau aciwt, cyn hyn yn cael eu cyllido'n anghylchol;
- Cyswllt Diogelwch Cleifion.

Bydd yr Asiantaeth yn adolygu ei threfniadau gyda'r Ymholiadau Cyfrinachol i ganfod beth fyddai'r effaith ar bob ymholiad pe byddai gostyngiad yn ei gyllid er mwyn cyfrannu tuag at y lleihad yn y terfyn adnoddau. Bydd effaith y gostyngiadau hyn yn cael eu rhannu gyda Gweinyddiaethau Iechyd y DU.

7.3 Rheoli Ystadau

Ym mis Tachwedd 2007, newidiodd yr Asiantaeth nifer y safleoedd yn Llundain lle mae'n darparu ei gwasanaethau o dri i ddau. Yn ystod 2007, fe gynhaliwyd astudiaeth dichonoldeb ystadau i sefydlu pa opsiynau sy'n bodoli ar gyfer datblygu ein hystadau wrth i ni dderbyn swyddogaethau newydd, i gwrdd â gweddill ein targed adleoli Lyons ac i ymateb i'r prydlesi'n dod i ben ar gyfer y ddau safle sydd ar ôl yn Llundain, un yn 2011 a'r llall yn 2014. Yn seiliedig ar hyn, byddwn yn paratoi achos busnes am strategaeth ystadau cyffredinol yn gynnar yn 2008 fydd yn ystyried opsiynau yn cynnwys defnyddio safleoedd ystadau sifil yn Llundain ac adleoliadau, yn gyfan neu'n rhannol, i rannau eraill o'r wlad.

8. Rhestr acronymau

NCAS	Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
GIG III	Sefydliad dros Arloesedd a Gwella'r GIG
NPSA	Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion
NRES	Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol
NRLS	System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu
PEAT	Tîm Gweithredu Amgylchedd Cleifion
PSAT	Tîm Gweithredu Diogelwch Cleifion

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion

4 – 8 Maple Street

Llundain

W1T 5HD

Ffôn 020 7927 9500

Ffacs 020 7927 9501

www.npsa.nhs.uk

Cyf: 0698 Ionawr 2008

© National Patient Safety Agency 2008.
Mae'r hawlfraint a'r hawliau deallusol eraill yn y deunydd hwn yn eiddo i'r NPSA a chedwir bob hawl. Mae'r NPSA yn rhoi'r awdurdod i sefydliadau gofal iechyd i atgynhyrchu'r deunydd hwn at ddefnydd addysgiadol ac anfasnachol.